

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar GEN-LD8296 –
Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011–12

Ionawr 2011



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad ar GEN-LD8296 –
Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011–12

Ionawr 2011



Y Pwyllgor Cyllid

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: www.cynulliadcymru.org.

Aelodau'r Pwyllgor



Angela Burns (Cadeirydd)
Gorllewin Caerfyrddin a
De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



Lorraine Barrett
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



Peter Black
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol
Cymru




Andrew Davies
Gorllewin Abertawe
Llafur



Chris Franks
Canol De Cymru
Plaid Cymru



Brian Gibbons
Aberafan
Llafur



Ann Jones
Dyffryn Clwyd
Llafur




Nick Ramsay
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



Janet Ryder
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

Bu'r Aelodau a ganlyn yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cyllid fel eilyddion yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn:



Rosemary Butler
Gorllewin Casnewydd
Llafur



Alun Davies
Canolbarth a Gorllewin
Cymru
Llafur

Cynnwys

	Paragraffau
Cyflwyniad.....	1-3
Tystiolaeth	4-9
Cyd-destun y Gyllideb	10-16
Datganoli pwerau codi treth a benthyca i Gymru	9
Blaenoriaethau strategol a chanlyniadau	10
Gwneud y mwyaf o adnoddau	33
Y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi	34-39
Buddsoddi i Arbed	40-414
Arbedion trawsadrannol.....	42-44
Hyblygrwydd diwedd blwyddyn	45-416
Effaith ar y GIG a llywodraeth leol	17
Costau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru	59-620
Buddsoddi cyfalaf	63-66
Casgliadau	67-73

Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i siomi gan Lywodraeth y DU am barhau i wrthod cydnabod a diwygio diffygion y fformiwla Barnett, sydd bellach wedi dyddio. Mae'n cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi barhau i wneud yr achos dros newid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edifar fod Llywodraeth y DU wedi cysylltu materion am drethu a benthyca â'r refferendwm ar bwerau deddfu pellach. Mae'r materion hyn yn gwbl ar wahân, ac mae gwneud cysylltiad o'r fath yn ychwanegu dryswch diangenrhaid at faterion y gofynnwyd i etholwyr eu hystyried, a gall arwain at ddiffyg eglurder dros delerau'r refferendwm. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'n ddiamwys fod rhaid mynd i'r afael â fformiwla Barnett yn gynt nag yn hwyrach. Yn ogystal, cyfeiriodd y Prif Ysgrifennydd at y cymorth mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ei roi i fynd i'r afael â'r mater o bwerau benthyca pellach, fel sydd wedi'i fanylu yn ei adroddiad ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat. (Paragraff 20)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi a chytuno â'r ymdriniaeth gyffredinol y mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn ei dilyn. Os yw cynllunio cyllideb i fod yn effeithlon, mae'n hanfodol bod adrannau yn pennu eu hamcanion eu hunain o ran eu cyflawniadau mewn ffordd gyson sy'n galluogi perfformiad a gwerth am arian i gael eu monitro. (Paragraff 29)

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'u hadran ond yn bryderus i nodi bod amrywioldeb yn y ffordd y caiff arferion ariannol eu gweithredu mewn gwahanol bortffolios. (Paragraff 30)

Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n benodol bod pennu cyllidebau mewn nifer o adrannau'n cael ei wneud cyn iddynt ystyried yr union ganlyniadau y maent am eu cyflawni gyda'r adnoddau a sut y gellir mesur y llwyddiant. (Paragraff 31)

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cynnydd yn amrywio o adran i adran o ran cael fframweithiau monitro canlyniadau mewn grym. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn nodi ymdriniaeth sy'n dechrau wrth iddi hi amlinellu'r cyd-destun y dylid blaenoriaethu gwahanol ganlyniadau, yn unol â chyllideb Llywodraeth

Cynulliad Cymru a Gweinidogion Adrannol ac yna nodi pa ganlyniadau maent am eu cyflawni. Dylai'r Gweinidog sicrhau hefyd fod pob adran yn dilyn yr ymdriniaeth honno a'u bod yn gwneud hynny mewn ffordd cyson.

(Paragraff 32)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymdriniaeth y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi a'r ffaith fod fframwaith mesur yn cael ei datblygu i sicrhau bod arbedion digonol yn cael eu gwneud. Un o brif amcanion fframwaith o'r fath yw sicrhau bod yr arbedion yn rhai gwir ac nid yn rhai honedig. Dylai hefyd alluogi i'r gwersi a ddysgwyd gael eu gwerthuso a'u defnyddio mewn gwasanaethau eraill i wneud arbedion.

(Paragraff 38)

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr ymdriniaeth hon yn cael ei ddatblygu mor fuan â phosibl a bod y fframwaith yn cael ei chyhoeddi i'r cyhoedd er mwyn i'r ymdriniaeth fod mor dryloyw â phosibl.

(Paragraff 39)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'n fawr iawn y ffaith y datblygwyd gweithgareddau Buddsoddi i Arbed. Mae'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn edrych ar hyn mewn ffordd gyfannol mewn ymdrech i gwtogi ar yr arferion aneffeithiol y gellid eu methu drwy weithio mewn seilos o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth bellach a ddarparwyd gan y Gweinidog ynghylch lefel yr arbedion a wnaethpwyd yn barod, ac sydd ar waith, o ganlyniad i'r prosiectau Buddsoddi i Arbed hyn.

(Paragraff 41)

Rydym yn argymhell bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn datblygu systemau ar fyrder i sicrhau bod y mathau hyn o arbedion yn cael eu nodi, eu hysgogi a'u rhoi ar waith.

(Paragraff 44)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ymlaen at weld manylion terfynol y system newydd ar danwariant DEL ac yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r gallu i gario tanwariant ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gostyngiadau a wnaethpwyd i gyllidebau cyfalaf. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y bydd unrhyw 'stociau' hyblygrwydd diwedd blwyddyn sy'n weddill o dan y trefniadau presennol yn cael eu colli yn sgil y newid. Edrycha'r Pwyllgor ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am

hyn wrth y Prif Ysgrifennydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu efallai na fydd y trefniadau newydd yn darparu'r lefel o hyblygrwydd sy'n addas i weinyddiaeth ddatganoledig. (Paragraff 47)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi safbwynt CLILC ar gyflymu'r broses o drosglwyddo grantiau sydd wedi'u neulltio i'r Grant Cynnal Refeniw. Er ei fod yn nodi y bydd cynnydd yn hynny o beth yn dibynnu ar ddod i gytundeb ar ffyrdd addas o fesur a chytuno'r canlyniadau i'w cyflawni. (Paragraff 56)

Roedd y Pwyllgor Cyllid yn falch bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol yn hyderus y byddai eu sefydliadau cyfansoddol yn ateb yr heriau y mae'r gyllideb arfaethedig yn gwneud yn ofynnol wrth barhau i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol ohonynt. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor wedi bod yn fwy hyderus petai'r dystiolaeth a gafodd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyddfederasiwn y GIG wedi bod yn gryfach i gyfiawnhau'u sicrwydd. (Paragraff 57)

Er hynny, mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio bod diffyg ymateb gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol unigol i ymgynghoriad y Pwyllgor yn dyst i'r ffaith eu bod yn cefnogi'r farn gadarnhaol hon. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi pwyslais Cyddfederasiwn y GIG ar y gefnogaeth wleidyddol y byddai ei angen arno i weithredu rhai newidiadau, a allai fod yn amhoblogaidd, er mwyn gwneud y GIG yn fwy effeithlon dros y blynyddoedd sydd i ddod. (Paragraff 58)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ymatebion y Gweinidog o ran costau'r Llywodraeth a bydd yn eu hystyried ymhellach pan fydd yn cwblhau ei ymchwiliad i staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru. (Paragraff 62)

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ailadrodd ei farn am bwysigrwydd defnyddio cyllid cyfalaf yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, ac nid yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn yn unig. Mae'r Pwyllgor yn nodi â diddordeb datblygiad y gronfa cyfalaf a gedwir yn ganolog a bydd yn ystyried hyn ymhellach wrth gwblhau ei ymchwiliad i ddyrannu cronfeydd cyfalaf yng Nghymru. (Paragraff 66)

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID

Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011-12

Cyflwyniad

1. Gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru **GEN-LD8296 – Cynigion y Gyllideb Ddrafft 2011-12** ger bron y Cynulliad ar 17 Tachwedd 2010. I gyd-fynd â'r cynnig hwn ceir dogfen atodol, Cyllideb Ddrafft 2011-2012, sy'n esbonio gwahanol elfennau y niferoedd i'w hawdurdodi yng nghynnig y gyllideb a manylion am y dyraniadau i adrannau unigol a'r weinyddiaeth ganolog. Roedd dogfen arall yn amlinellu'r dyraniadau arfaethedig o fewn pob un o'r Prif Grwpiau Gwariant am y tair blynedd rhwng 2011-12 a 2013-14 yn cyd-fynd â'r rhain.

2. Mae Rheolau Sefydlog yn gosod nifer o gyfrifoldebau penodol ar y Pwyllgor Cyllid, yn benodol:

27.2 Ni chaniateir gwneud cynnig yn y cyfarfod llawn mewn perthynas â chyllideb ddrafft y llywodraeth nes bod y Pwyllgor Cyllid wedi cyflwyno'i adroddiad ar y gyllideb ddrafft o dan Reol Sefydlog 27.4.

27.4 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y gyllideb ddrafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn fwy na phedair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Rhaid i adroddiad y Pwyllgor Cyllid atodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u cael gan bwyllgorau eraill.

27.5 Rhaid i'r Pwyllgor Cyllid ystyried y gyllideb ddrafft a chyflwyno adroddiad i'r Cynulliad yn ei chylch heb fod yn fwy na phedair wythnos ar ôl iddi gael ei gosod gerbron y Cynulliad. Rhaid i adroddiad y Pwyllgor Cyllid atodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'u cael gan bwyllgorau eraill.

3. Cyhoeddwyd adroddiad ar Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 ar 20 Hydref 2010, ac yn dilyn yr adolygiad hwnnw diwygiwyd Rheol Sefydlog 27.4 gan Reol Sefydlog 27A er mwyn newid y terfyn amser cyn y bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno'i adroddiad i 11 Ionawr 2011.

Tystiolaeth

4. Cyflwynodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, a'i swyddogion, y gyllideb ddrafft i'r Pwyllgor Cyllid ar 18 Tachwedd 2010.

5. Cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid gyfarfod gyda'r Gwir Anrhydeddus Danny Alexander AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 22 Tachwedd i drafod setliad Cymru yn ei gyfanrwydd a materion eraill gan gynnwys fformiwla Barnett, a'r posibilrwydd i Gymru gael ei phwerau trethu a benthyca ei hun.

6. Lansiodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad byr ar gynigion y gyllideb ddrafft ar 17 Tachwedd, gan wahodd sylwadau gan awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd lleol yn bennaf, ond hefyd gan fyrddau eraill yr effeithir arnynt. Ceir copi o'r llythyr ymgynghori yn Atodiad A. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i gael barn pobl am y gyllideb ddrafft yn benodol, a nid barn am y pwysau ariannol cyffredinol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Felly, gwahoddodd y Pwyllgor ymgynghoreion i baratoi cyflwyniadau cryno a oedd yn canolbwyntio ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru. O gofio am y prinder amser sydd ar gael i graffu ar y gyllideb ddrafft, gofynnodd y Pwyllgor i'r rhain gael eu cyflwyno erbyn 29 Tachwedd 2010. Roedd y Pwyllgor yn siomedig, er gwaetha'r amserlen dynn, mai dim ond un ymateb a ddaeth i law, ac wedi synnu bod lleisiau pobl mor dawedog o gofio am y sefyllfa ariannol anodd mae Cymru yn ei hwynebu.

7. Yn dilyn hynny, ar 2 Rhagfyr 2010, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr cyrff o'r ddau faes gwariant mwyaf yn y gyllideb, sef llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol:

- Y Cynghorydd Rodney Berman a Steve Thomas, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Nigel Aurelius, Cymdeithas Trysoryddion Cymru;
- Kate Watkins, Cydffederasiwn GIG Cymru;
- Jonathan Davies, Cydffederasiwn GIG Cymru

8. Cafwyd tystiolaeth lafar bellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'i swyddogion ar 6 Rhagfyr. Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor yn ymateb i bwyntiau a godwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2010.

9. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ddiolchgar i bawb a ddarparodd dystiolaeth neu a fu'n ei helpu gyda'i thrafodion. Mae'n arbennig o ddiolchgar i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'i swyddogion a wnaeth ymateb ar fyr rybudd i geisiadau am ragor o wybodaeth. Mae manylion am yr unigolion a fu'n rhoi tystiolaeth i'w cael ar wefan y Pwyllgor Cyllid.

Cyd-destun y Gyllideb

10. Mae rhagolygon economaidd a chyllidol y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb, a gyhoeddwyd ar 29 Tachwedd 2010 (Cm 7979), yn awgrymu bod economi y Deyrnas Unedig wedi gwella'n gynt ers y gwanwyn na'r hyn a amcangyfrifwyd yng Nghyllideb mis Mehefin. Roedd y cynnydd cynnyrch domestig gros (GDP) yn fwy na'r disgwyl yn ystod yr ail a'r trydydd chwarter ac mae'r rhagolygon blaenorol wedi'u newid i fod ychydig yn uwch. O'u cymharu â'r rhagamcaniadau uwch ar gyfer GDP, mae'r ffigurau diweddaraf ar werth ychwanegol gros (GVA) rhanbarthol yn nodi bod GVA Cymru ar gyfer 2009 wedi disgyn 2.2 y cant o'r lefel yn 2008. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 2.5 y cant yn GVA Cymru i £14,842 y pen, y GVA isaf o holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.¹ Disgwylir i chwyddiant aros uwchben y targed CPI o 2 y cant ar gyfer 2011, a hynny'n rhannol oherwydd y cynnydd mewn TAW.

11. Rhagolygon canolog y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb yw y bydd yr economi'n parhau i wella o'r dirwasgiad ond ar gyfradd arafach i'r saithdegau, yr wythdegau a'r nawdegau. Mae'r rhagolwg canol tymor swrth hwn yn adlewyrchu normaleiddio graddol cyflyrau credyd, yr ymdrechion i leihau dyled y sector preifat ac effaith cyfuno cyllidol Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

12. Paratowyd rhagolygon y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb yn dilyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar 22 Mehefin 2010 a'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2010. Y cefndir i'r adolygiad o'r gyllideb a'r adolygiad o wariant oedd lefelau benthyg digynsail y sector cyhoeddus yn dilyn yr argyfwng yn y sector gwasanaethau ariannol a'r dirywiad economaidd a ddaeth yn sgil hynny. Un o brif amcanion Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw cael gwared ar y diffyg ariannol strwythurol presennol (sef y diffyg na ellir

¹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Bwletin Ystadegol, [Regional, sub-regional and local gross value added 2009](#), 8 Rhagfyr 2010

cael gwared arno drwy dwf) erbyn 2014-15 a sicrhau bod dyled net y sector preifat yn parhau i ostwng o hynny ymlaen.

13. Felly, arweiniodd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant at gyfnod o gwtogi digynsail er mwyn lleihau y diffyg yng nghyllideb y Deyrnas Unedig yn sylweddol. Mae'r cynilo hwn hefyd wedi dod ar adeg pan mae'r economi yn ymddangos i fod yn dechrau gwella ar ôl y dirywiad economaidd.

14. Fel pob blwyddyn arall, pennwyd dyraniad y Trysorlys i floc Cymru drwy ddefnyddio fformiwla Barnett. Mewn termau absoliwt bydd dyraniad cyllid y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) yn cynyddu o £13.3 biliwn yn 2010-11 i £13.5 biliwn yn 2014-15. Fodd bynnag, ar ôl addasu i gynnwys chwyddiant, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad real o 7.5 y cant o ffigur 2010-11² neu ostyngiad o 8.4 y cant ar y gwir gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno. Bydd y dyraniad cyfalaf yn gostwng o £1.7 biliwn i £1.1 biliwn dros yr un cyfnod – gostyngiad real o 41 y cant.³ Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gorfod pennu ei chyllideb ei hun gan ystyried y lefelau sylweddol is o arian y bydd yn ei chael.

15. Mae tablau 1 a 2 yn crynhoi'r prif newidiadau yn y gyllideb ddrafft a'r newidiadau rhagamcaniedig ar gyfer y cyfnod rhwng 2010-11 a 2013-14.

16. Mae rhyw fath o anogaeth wedi bod ynghlwm â chyllidebau yn y gorffennol er mwyn sicrhau gwell cynildebau ac arbedion. Nid oedd y tro hwn yn eithriad. Fodd bynnag, bydd llymder yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant yn golygu na fydd modd cyflawni'r arbedion cyllidebol angenrheidiol drwy ddefnyddio mesurau traddodiadol o gynildeb ac arbedion effeithlonrwydd yn unig. Bydd angen i Lywodraeth Cymru edrych yn ofalus ar sut mae ei blaenoriaethau gwario wedi'u pennu mewn perthynas â'i phrif amcanion, a sicrhau y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu yn y ffordd mwyaf effeithiol posibl. Bydd angen ail ystyried rhaglenni gwario gan gadw'r "agenda effeithiolrwydd" hwn mewn cof. Wrth archwilio cyllideb 2011-12 yn y cyd-destun hwn, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio penderfynu sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi blaenoriaethu'i chynlluniau gwario

² Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys gwariant unigryw na gwariant a gyfyngir gan gyfnod o amser ac yn tybio bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gohirio 50 y cant o'r

³ Fel sy'n arferol gyda'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, nid yw'r dyraniadau'n cynnwys dibrisiad. Caiff y taliadau heblaw arian parod hyn eu hychwanegu at gyfanswm y dyraniad i'w cynnwys yng nghynnig cyllidebol y Cynulliad.

a sut y bydd yn mesur pa mor effeithiol yw'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Datganoli pwerau codi treth a benthyca i Gymru

17. Er nad yw'n gwbl berthnasol i gyllideb ddrafft 2011-12, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi rhoi ystyriaethau cychwynnol i agweddau ehangach ar gyllido gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2010 cyhoeddwyd adroddiad terfynol Comisiwn Holtham ('Tegwch ac atebolrwydd: setliad ariannu newydd i Gymru'). Tynnodd yr adroddiad hwn, ac adroddiad interim y Comisiynydd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009, sylw at nifer o ddiffygion yn fformiwla Barnett ac argymhellodd newid y fformiwla am un symlach sy'n seiliedig ar angen. Nododd yr adroddiad interim rai atebion dros dro er lles tegwch a thryloywder. Roedd Comisiwn Holtham hefyd yn argymhell y byddai'n briodol ystyried datganoli pwerau trethu cyfyngedig a'r pŵer i fenthyca er mwyn cyllido gwariant cyfalaf. Clywodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth gan Gerry Holtham ar ddau achlysur dros y flwyddyn mewn perthynas â'i adroddiad terfynol ac mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar iawn iddo am esbonio sail ac effeithiau posibl ei argymhellion.

18. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ymchwilio i'r materion hyn ymhellach yn ei gyfarfod gyda Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar 22 Tachwedd 2010. Dywedodd y Prif Ysgrifennydd wrth y Pwyllgor⁴ y byddai'n ymateb yn gadarnhaol pe byddai consensws yng Nghymru ynghylch cael trafodaeth bellach am bwerau ariannol ychwanegol i Gymru neu'r posibilrwydd o ddatganoli materion ariannol. Fodd bynnag, nid dyma'r amser i ddechrau trafodaeth am ddiwygio fformiwla Barnett. Ar lefel mwy cyffredinol mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi y bydd ei hystyriaethau o'r cynigion yn adroddiadau Holtham yn ddibynnol ar ganlyniadau'r refferendwm ar bwerau deddfwriaethol sydd i'w gynnal ar 3 Mawrth 2011.⁵

19. Yn ystod y cyfarfod hwn gyda'r Pwyllgor Cyllid, ni wnaeth y Prif Ysgrifennydd unrhyw sylw penodol⁶ am y 'terfyn isaf ar gyfer Barnett' ac mae'r Pwyllgor yn rhannu siom y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb na chafwyd cyhoeddiad o pryd fydd hwn yn cael ei weithredu

⁴ Cofnod y Trafodion t120, 22 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

⁵ Trysorlys Ei Mawrhydi, *Spending Review 2010*, tudalen 70

⁶ Cofnod y Trafodion t127 - 131, 22 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

yn yr adolygiad o wariant. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn falch o glywed gan y Gweinidog fod y Prif Ysgrifennydd yn fodlon trafod hyn.⁷

20. Sylwadau: Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i siomi gan Lywodraeth y DU am barhau i wrthod cydnabod a diwygio diffygion y fformiwla Barnett, sydd bellach wedi dyddio. Mae'n cefnogi Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddi barhau i wneud yr achos dros newid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn edifar fod Llywodraeth y DU wedi cysylltu materion am drethu a benthycia â'r refferendwm ar bwerau deddfu pellach. Mae'r materion hyn yn gwbl ar wahân, ac mae gwneud cysylltiad o'r fath yn ychwanegu dryswch diangenrhaid at faterion y gofynnwyd i etholwyr eu hystyried, a gall arwain at ddiffyg eglurder dros delerau'r refferendwm. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi'n ddiamwys fod rhaid mynd i'r afael â fformiwla Barnett yn gynt nag yn hwyrach. Yn ogystal, cyfeiriodd y Prif Ysgrifennydd at y cymorth mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ei roi i fynd i'r afael â'r mater o bwerau benthycia pellach, fel sydd wedi'i fanylu yn ei adroddiad ar Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat⁸.

Blaenoriaethau strategol a chanlyniadau

21. Gan fod llai o adnoddau ar gael i'r Llywodraeth ar gyfer 2011-12 mae'r Pwyllgor wedi bod yn canolbwyntio ar ddod i ddeall sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddi i gyflawni ei blaenoriaethau strategol. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at bob Gweinidog ar 29 Gorffennaf, cyn y cylch cyllideb, yn gofyn am wybodaeth am y dull y byddant yn ei ddefnyddio i ddyrannu adnoddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yn benodol, gofynnodd y Pwyllgor i Weinidogion beth oedd yr elfennau allweddol o'u rhaglenni gwario yn eu tyb hwy, o ran eu blaenoriaethau a'r canlyniadau disgwylidig. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am fanylion am y lefelau o'r arbedion effeithlonrwydd maent yn disgwyl eu gwneud.

22. Ymatebodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb⁹ ar 28 Awst ar ran y Gweinidogion gan ddweud eu bod yn gweithio ar y sail o baratoi ar y ragdybiaeth o refeniw o 3 y cant a gostyngiadau cyfalaf o 10 y cant, ac mai blaenoriaeth Llywodraeth y Cynulliad oedd diogelu a gwella gwasanaethau cyhoeddus, diogelu i raddau y gyllideb ar gyfer sgiliau, ysgolion, gofal iechyd eilaidd a chymuned a budd-daliadau

⁷ Cofnod y Trafodion t212, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, *Ymchwiliad i Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat*, Chwefror 2009

⁹ Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-16-10(p3), *Llythyr gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*, 14 Hydref 2010

cyffredinol. Aeth y Gweinidog ymlaen yn ei lythyr i roi manylion am y gwaith sy'n cael ei wneud i wella effeithiolrwydd a hyrwyddo arloesedd ond gan bwysleisio na fyddai'n bosibl bod yn fwy penodol nes bydd y lefel gwirioneddol o adnoddau yn hysbys.

23. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid unwaith eto at Weinidogion unigol ar 23 Tachwedd, yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a chyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidogion pa flaenoriaethau maent wedi'u dewis wrth bennu eu cyllidebau ar gyfer 2011-12 a sut y bydd y rhain yn cyfrannu at gyflawni amcanion strategol cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd sut yr oedd Gweinidogion yn bwriadu monitro canlyniadau'r amcanion strategol hyn.

24. Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid hefyd i bwyllgorau craffu unigol yn gofyn iddynt ystyried yr un materion wrth iddynt graffu ar y gyllideb ddrafft.

25. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb¹⁰ fod Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio'n strategol ar ddarparu canlyniadau i bobl Cymru ac mai dyna sut y dylid barnu'r gyllideb. Nododd hefyd fod Gweinidogion unigol yn gyfrifol am fesur effeithiau a chanlyniadau eu blaenoriaethau gwario eu hunain, a bod hyn yn arwain at sut y caiff adnoddau eu dyrannu yn y dyfodol a'r broses gynllunio busnes. Nododd yr Aelodau¹¹ bod ymatebion y Gweinidogion unigol a'r Pwyllgorau yn dangos ymdriniaeth wahanol iawn rhwng gwahanol adrannau. Er enghraifft, soniodd un Gweinidog am effaith y gyllideb ar ei hadran yn y dyfodol o ran effeithiolrwydd. Wrth edrych i'r dyfodol, nododd y gostyngiadau mewn cyllideb cyfalaf a monitro canlyniadau o fewn fframwaith gweithredidadau ac fel ffordd o asesu perfformiad. O'i chymharu, nododd Gweinidog arall am fonitro canlyniadau a monitro wedi hynny gan uwch swyddogion a rhywbeth a oedd yn broses ôl-weithredol.

26. Nododd y Pwyllgor Cyllid yn benodol bod cyllidebau nifer o adrannau wedi'u dyrannu ar sail amcanion strategol, ond doedd dim prosesau mewn grym ar gyfer monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth honno. Dywedodd nifer o'r Gweinidogion eu bod yn y broses o ddatblygu cynlluniau gwario mwy manwl gan eu bod wedi cyhoeddi eu cynlluniau gwario. Byddai'r cynlluniau mwy manwl yn manylu'r prif

¹⁰ Cofnod y Trafodion t214, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹¹ Cofnod y Trafodion t221, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

nodau a'r prif ganlyniadau yn erbyn eu blaenoriaethau strategol. Roedd hyn i weld yn gwbl groes i farn y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y byddai penderfyniadau o'r fath yn sail i'r broses ddyrannu adnoddau.

27. Roedd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn cydnabod¹² ei bod wedi sylwi ar wahaniaethau rhwng adrannau a'i bod yn sicr bod gwersi i'w dysgu o'r broses y gellir eu defnyddio i lywio'r cyfeiriad strategol sy'n rhaid ei ddilyn. Dywedodd y Gweinidog¹³ y byddai proses y Pwyllgor Cyllid o graffu ar y gyllideb ddrafft yn y ffordd hwn yn rhoi adborth defnyddiol iddi ar sut y gallai'r Llywodraeth newid cyfeiriad o ran dyrannu adnoddau'n effeithiol.

28. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb¹⁴ fod ei hadran hi yn darparu'r fframwaith ar gyfer y broses gynllunio fanwl i reoli ac yna'n cefnogi'r broses fanwl o ddatblygu cynlluniau busnes.

29. **Sylwadau:** Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi a chytuno â'r ymdriniaeth gyffredinol y mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn ei dilyn. Os yw cynllunio cyllideb i fod yn effeithlon, mae'n hanfodol bod adrannau yn pennu eu hamcanion eu hunain o ran eu cyflawniadau mewn ffordd gyson sy'n galluogi perfformiad a gwerth am arian i gael eu monitro.

30. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb a'u hadran ond yn bryderus i nodi bod amrywioldeb yn y ffordd y caiff arferion ariannol eu gweithredu mewn gwahanol bortffolios.

31. Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n benodol bod pennu cyllidebau mewn nifer o adrannau'n cael ei wneud cyn iddynt ystyried yr union ganlyniadau y maent am eu cyflawni gyda'r adnoddau a sut y gellir mesur y llwyddiant.

32. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y cynnydd yn amrywio o adran i adran o ran cael fframweithiau monitro canlyniadau mewn grym. **Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn nodi ymdriniaeth sy'n dechrau wrth iddi hi amlinellu'r cyd-destun y dylid blaenoriaethu gwahanol ganlyniadau, yn unol â chyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweinidogion Adrannol**

¹² Cofnod y Trafodion t226, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹³ Cofnod y Trafodion t226, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁴ Cofnod y Trafodion t228, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

ac yna nodi pa ganlyniadau maent am eu cyflawni. Dylai'r Gweinidog sicrhau hefyd fod pob adran yn dilyn yr ymdriniaeth honno a'u bod yn gwneud hynny mewn ffordd cyson.

Gwneud y mwyaf o adnoddau

33. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi pwysleisio pwysigrwydd ceisio gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Gyda'r lefel is o adnoddau sydd ar gael ar gyfer 2011-12 mae angen ymdriniaeth fwy radical byth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd yn canolbwyntio ar nifer o faterion o'i drafodaethau gyda'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb.

Y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi

34. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod arian ar gael yn 2012-13 ar gyfer y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi er gwaethaf y ffaith mai dim ond tan fis Mawrth 2012 y mae'n bwriadu rhedeg. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb¹⁵ wrth y Pwyllgor mai mater i'r Llywodraeth newydd, ar ôl yr etholiad, fydd ystyried a yw am barhau ag ymdriniaeth debyg i ddatblygu rheoli a gwella gwasanaeth cyhoeddus.

35. Serch hynny, roedd hi o'r farn y byddai hyn ar agenda unrhyw Lywodraeth yn y dyfodol. O'i safbwynt hi, nid oedd y gyllideb yn gysylltiedig ag effeithlonrwydd ac arloesedd yn unig, ond hefyd o bosibl i arian cyfatebol gan y Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd sydd gan Gymru, fel y gyllideb Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 'Creu'r Cysylltiadau'. Nododd hefyd¹⁶ y posibilrwydd am arbedion drwy raglenni cydgasglu band eang y gwasanaeth cyhoeddus, Cyfnewid Cymru a ffrydiau gwaith a oedd yn nodi arbedion ar lefel awdurdod a lefel sector cyhoeddus.

36. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud¹⁷ ei bod wedi dod â grŵp o arbenigwyr ynghyd i ddarparu fframwaith fesur ar gyfer y gweithgareddau hyn, ac roedd y rhain yn cynnwys nid yn unig pobl o'r Llywodraeth ond pobl o ystod o sefydliadau sector cyhoeddus gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru.

¹⁵ Cofnod y Trafodion t251, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁶ Cofnod y Trafodion t253, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁷ Cofnod y Trafodion t257, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

37. Tawelwyd ofnau'r Pwyllgor gan sylwadau cadarnhaol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru¹⁸ am y cysylltiadau roedd y cydweithio hyn yn eu creu rhwng adrannau gofal cymdeithasol a byrddau iechyd a'r synergedd a oedd yn deillio o'r rhain. Croesawodd y Pwyllgor Cyllid sylwadau cadarnhaol a gafwyd hefyd gan Gydffederasiwn GIG.¹⁹

38. Sylwadau: Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu ymdriniaeth y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi a'r ffaith fod fframwaith mesur yn cael ei datblygu i sicrhau bod arbedion digonol yn cael eu gwneud. Un o brif amcanion fframwaith o'r fath yw sicrhau bod yr arbedion yn rhai gwir ac nid yn rhai honedig. Dylai hefyd alluogi i'r gwersi a ddysgwyd gael eu gwerthuso a'u defnyddio mewn gwasanaethau eraill i wneud arbedion.

39. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yr ymdriniaeth hon yn cael ei ddatblygu mor fuan â phosibl a bod y fframwaith yn cael ei chyhoeddi i'r cyhoedd er mwyn i'r ymdriniaeth fod mor dryloyw â phosibl.

Buddsoddi i Arbed

40. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb am y gronfa Buddsoddi i Arbed. Yn amlwg, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae buddsoddiadau sy'n arwain at arbedion i'w croesawu a'u bod yn gallu cael eu mesur yn rhwydd ac yn dryloyw. Mae hefyd yn hanfodol bod cynlluniau i hyrwyddo buddsoddiadau o'r fath yn cynnwys gofyniad bod yr arbedion yn cael eu nodi o flaen llaw. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Cyllid²⁰ bod llawer o'r gwaith sy'n gysylltiedig â Buddsoddi i Arbed yn ymwneud â chydweithio ar draws y sector cyhoeddus ac ymgysylltu â llywodraeth leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Dywedodd fod gweithdrefn gadarn yn bodoli, lle ceir datganiadau o ddiddordeb, tystiolaeth o'r angen, ynghyd â thystiolaeth o'r ffordd o ymdrin â'r gwaith, arbedion ac arloesi. Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor,²¹ amlinellodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y meini prawf ar gyfer asesu cynigion a oedd yn cynnwys i ba raddau yr oeddent yn cyd-fynd ag agenda 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn diwallu amcanion y rhaglenni 'Creu'r Cysylltiadau' ac 'Effeithlonrwydd ac Arloesi'. Dywedodd hefyd

¹⁸ Cofnod y Trafodion t59-60, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

¹⁹ Cofnod y Trafodion t199, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

²⁰ Cofnod y Trafodion t283, 6 Rhagfyr 2010, y Pwyllgor Cyllid

²¹ Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-02-11(p3), *Cyllideb Ddrafft 2011-12 - Gwyboaeth Pellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*, 12 Ionawr 2011

eu bod yn cynnwys ystyried cyfnod talu yn ôl unrhyw gynnig, cyfradd yr enillion ar fuddsoddiad a'r achos 'ychwanegolrwydd'. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys rhestr o'r prosiectau a oedd wedi cael gwobrwyon a'r arbedion a wnaed gan bob un ohonynt yn ôl yr amcangyfrifon.

41. Sylwadau: Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'n fawr iawn y ffaith y datblygwyd gweithgareddau Buddsoddi i Arbed. Mae'n croesawu'r ffaith bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn edrych ar hyn mewn ffordd gyfannol mewn ymdrech i gwtogi ar yr arferion aneffeithiol y gellid eu methu drwy weithio mewn seilos o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth bellach a ddarparwyd gan y Gweinidog ynghylch lefel yr arbedion a wnaethpwyd yn barod, ac sydd ar waith, o ganlyniad i'r prosiectau Buddsoddi i Arbed hyn.

Arbedion trawsadrannol

42. Nododd y Pwyllgor fod cyfleoedd ar gyfer gwneud arbedion drwy gamau sy'n pontio mwy nag un portffolio. Er enghraifft, dywedodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai²² yr amcangyfrifwyd y byddai pob £1 a gaiff ei gwario ar 'addasiadau brys' yn arwain at arbediad o £7.50 ym mhortffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb²³ eu bod yn awyddus iawn i sefydlu cydweithio o'r math hwn - yn enwedig rhwng y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'r gwasanaethau cymdeithasol a bod hwn yn ffactor allweddol mewn perthynas â phwysigrwydd y cynnig. Pwysleisiodd y Gweinidog²⁴ er y gellid disgrifio'r math hwn o brosiect fel 'trawsportffolio', mewn gwirionedd roedd yn fater o 'draws-gydweithio' ar y lefel lleol ac, mewn rhai amgylchiadau, fel yn achos iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, bod ganddynt benodiadau ar y cyd i fynd i'r afael â chydweithio o'r fath.

43. O ystyried strwythur adrannol Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n bosibl y gallai arbediad o'r math hwn gael ei fethu gan efallai fyddai adran sy'n ystyried buddsoddi yn edrych ar arbedion yn ei faes cyfrifoldeb ei hun yn unig, ac na fyddai'n gweld y potensial ar gyfer manteision ehangach. Mae gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb,

²² Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-22-10(p3), *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2011-12 - Ymatebion gan Weinidogion Cymru*, 6 Rhagfyr 2010

²³ Cofnod y Trafodion t286, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

²⁴ Cofnod y Trafodion t291, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

a'i hadran, rôl hanfodol i'w chwarae o ran sicrhau bod systemau yn bodoli i adnabod y math hwn o gyfle ac i ystyried sut y gellid ysgogi adrannau i edrych ar fanteision y tu hwnt i'w meysydd uniongyrchol hwy.

44. Rydym yn argymhell bod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yn datblygu systemau ar fyrder i sicrhau bod y mathau hyn o arbedion yn cael eu nodi, eu hysgogi a'u rhoi ar waith

Hyblygrwydd diwedd blwyddyn

45. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi mynegi diddordeb mewn perthynas â'r lefelau o arian hyblygrwydd diwedd blwyddyn sydd wedi'u cronni yng Nghymru. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i'r cynigion i gael gwared ar y system hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Trafododd y Pwyllgor y mater hwn â'r Prif Ysgrifennydd yn y cyfarfod pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd. Cadarnhaodd er bod manylion y system newydd yn y broses o gael eu datblygu, y byddai'r gweinyddiaethau datganoledig yn cadw'r gallu i gario tanwariant ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.²⁵ Dywedodd hefyd o dan y system newydd, yn wahanol i'r system hyblygrwydd diwedd flwyddyn, ni fyddai unrhyw allu i gasglu cronfeydd cronedig.²⁶ Wrth gyfeirio at stociau hyblygrwydd diwedd blwyddyn presennol sydd ar gael i Gymru, dywedodd y byddai pob cais a gaiff ei wneud i dynnu i lawr yn cael ei anrhydeddu, ond na fyddai unrhyw geisiadau pellach i dynnu i lawr yn cael eu derbyn a chytunodd i gadarnhau lefel y stociau sydd ar ôl gan Gymru.²⁷ Roedd y Pwyllgor yn pryderu, ar yr wyneb, y byddai unrhyw stociau na gafodd eu tynnu i lawr yn cael eu colli.

46. Dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wrth y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Rhagfyr²⁸ fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi cadarnhau bod y gweinyddiaethau datganoledig yn wahanol i adrannau Whitehall, ac y byddai'r dulliau newydd yn galluogi Cymru i gario tanwariant ymlaen i'r flwyddyn ganlynol heb fod angen i'r Trysorlys gytuno ar hynny. Dywedodd ei bod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd i gadarnhau'r ffordd ymlaen ac y byddai'n rhannu'r ohebiaeth â'r Pwyllgor.

²⁵ Cofnod y Trafodion t182, 22 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

²⁶ Cofnod y Trafodion t67, 22 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

²⁷ Cofnod y Trafodion t69, 22 Tachwedd 2010, Y Pwyllgor Cyllid

²⁸ Cofnod y Trafodion t212, 6 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

47. **Sylwadau:** Mae'r Pwyllgor Cyllid yn edrych ymlaen at weld manylion terfynol y system newydd ar danwariant DEL ac yn croesawu'r ffaith y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cadw'r gallu i gario tanwariant ymlaen. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y gostyngiadau a wnaethpwyd i gyllidebau cyfalaf. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu y bydd unrhyw 'stociau' hyblygrwydd diwedd blwyddyn sy'n weddill o dan y trefniadau presennol yn cael eu colli yn sgil y newid. Edrycha'r Pwyllgor ymlaen at gael rhagor o wybodaeth am hyn wrth y Prif Ysgrifennydd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu efallai na fydd y trefniadau newydd yn darparu'r lefel o hyblygrwydd sy'n addas i weinyddiaeth ddatganoledig.

Effaith ar y GIG a Llywodraeth leol

48. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu am effaith y gyllideb arfaethedig ar sefydliadau sector cyhoeddus ac yn enwedig y GIG sy'n cynrychioli tua 40 y cant o gyllideb y Llywodraeth a Llywodraeth leol sy'n cynrychioli tua 30 y cant. Yn ei ymgynghoriad cyfynedig ar y gyllideb ddrafft, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr holl Fyrddau Iechyd Lleol (Atodiad A) yn gofyn sut y byddent yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu cyfeirio i sicrhau y cânt yr effaith mwyaf posibl wrth gyflawni amcanion y Llywodraeth a sut y byddant yn asesu'r amcanion a gaiff eu cyflawni.

49. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn synnu ac yn siomedig ynghylch y diffyg ymateb i'w wahoddiad i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol. Roedd y Pwyllgor yn disgwyl y byddent yn croesawu cyfle i fynegi barn yn uniongyrchol i'r Pwyllgor gan fod hwn yn gyfle euraidd i graffu arni.

50. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyllid, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru²⁹ ei bod yn deall yn llwyr sefyllfa ariannol y wlad yn ei chyfanrwydd a'u bod yn edrych ar gynnydd o -1.4 y cant ar gyfartaledd ar gyfer llywodraeth leol eleni.³⁰ Dywedodd fod hyn yn well na'r hyn yr oedd wedi ei ddisgwyl ond bod hwn yn dal i fod yn setliad caled iawn. Aeth ymlaen i ddweud na fyddai'n hawdd rheoli ei harian, y byddai costau'n cynyddu ac y bydd yn rhaid iddi frwydro i gau'r bwlch. Fodd bynnag,³¹ roedd y Gymdeithas yn croesawu'r ffaith y dyrannwyd arian iddi ar lefel debyg i'r hyn a ddyrannwyd i'r GIG a Llywodraeth

²⁹ Cofnod y Trafodion t12, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁰ Cofnod y Trafodion t13, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³¹ Ibid

Cynulliad Cymru. Nid oedd yn teimlo bod hyn wedi bod yn wir dros y blynyddoedd diwethaf.

51. Roedd ymateb cadarnhaol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn galonogol i'r Pwyllgor Cyllid.³² Dywedodd y Gymdeithas bod awdurdodau lleol eisoes yn edrych ar nifer o fesurau i gau'r bwlch rhwng y galw a chostau cynyddol ym meysydd addysg a gofal cymdeithasol a'r ffordd y caiff y meysydd hyn eu gwarchod o fewn y grant cynnal refeniw. Hysbyswyd y Pwyllgor³³ er y bydd ymateb i'r lefel is o ddarpariaeth gyllidebol yn 2011-12 yn golygu cryn boen i awdurdodau lleol y byddent am reoli eu cynllunio ariannol tymor canolig i sicrhau ei bod yn gwarchod gwasanaethau rhengflaen. Yr her³⁴ i awdurdodau lleol yw sut y gallant leihau gwariant tra'n darparu effeithlonrwydd gwirioneddol nad ydynt yn cael effaith andwyol ar wasanaethau.

52. Yn yr un modd, roedd yn galonogol i'r Pwyllgor Cyllid glywed am y negeseuon cadarnhaol a ddaeth i law gan Gydffederasiwn y GIG.³⁵ Dywedodd fod Byrddau Iechyd Lleol yn hyderus y gallant warchod, darparu a datblygu gwasanaethau craidd gan eu bod yn hyderus y gallant gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd angenrheidiol. Er hynny, pwysleisiodd y Cydffederasiwn y bydd angen cymorth arno gan y bydd yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau amhoblogaidd am y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol. Roedd rheolwyr iechyd a chlinigwyr yn chwilio am gymorth i ymgymryd â'r dasg anodd hon.

53. Dywedodd y Cydffederasiwn fod gan bob sefydliad ei rhaglen ei hun o arbedion effeithlonrwydd sy'n dod ynghyd o dan y strategaeth bum mlynedd. Roedd y GIG yn cydnabod³⁶ ei fod yn wynebu prosiect trawsnewid sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Fodd bynnag, roedd rhai newidiadau wedi'u gwneud eisoes.³⁷ Dywedodd y Cydffederasiwn³⁸ fod eu setliad ariannol yn ddigonol i roi'r newidiadau hynny ar waith - os byddant yn cael y cyfle i wneud hynny a'u bod yn cael cymorth gwleidyddol a chyhoeddus i ad-drefnu'r gwasanaeth.

³² Cofnod y Trafodion t35, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³³ Cofnod y Trafodion t93, 95-97, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁴ Cofnod y Trafodion t97-98, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁵ Cofnod y Trafodion t220, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁶ Cofnod y Trafodion t140, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁷ Cofnod y Trafodion t265, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

³⁸ Cofnod y Trafodion t267-268, 2 Rhagfyr 2010, Y Pwyllgor Cyllid

54. Er hynny, roedd y Pwyllgor Cyllid yn pryderu am raddfa'r heriau sy'n wynebu'r GIG o ran rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith. Felly, ysgrifennodd at gyfarwyddwyr cyllid Byrddau Iechyd Lleol unigol i gael gwybodaeth bellach am y gost o gyflawni'r newidiadau a'r arbedion sy'n angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mewn ymateb ar y cyd,³⁹ dywedodd y cyfarwyddwyr cyllid fod yr holl fyrddau Iechyd yn gwybod ac yn deall bod angen iddynt ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth yn sgil sefyllfa ariannol anodd iawn. Dywedasant eu bod yn adnabod yr angen i ddarparu lefelau uchel o effeithlonrwydd ynghyd â thrawsnewid gwasanaethau yn barhaol yn y ffordd a ddisgrifiwyd gan Gydffederasiwn y GIG. I gloi, dywedasant fod yr holl Fyrddau yn ymgymryd â phrosesau trwyadl i sicrhau bod eu cynlluniau yn rhai y gellid eu rhoi ar waith. Ar yr adeg honno, roedd yn anodd eu cyfuno mewn ffordd ystyrlon i'w cyflwyno fel tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid.

55. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn pryderu bod angen i'r Gwasanaeth Iechyd fod yn ofalus er mwyn cyflawni arbedion effeithlonrwydd wrth barhau i ddarparu gwasanaethau. Mae dan rwymedigaeth i ddarparu gofal Iechyd i bobl Cymru a rhaid cynnal hyn er gwaetha'r angen i wneud arbedion.

56. Yn cyfeirio at faes penodol lle gellid gwneud arbedion, dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor fod costau gweinyddu ac archwilio yn gysylltiedig â chlustnodi grantiau. Fe'u hamcangyfrifir i fod tua 5 y cant o gyfanswm cost y grant. Yn ei thystiolaeth lafar, gofynnodd y Gymdeithas i'r Pwyllgor ei chefnogi mewn perthynas â chyflymu'r broses o drosglwyddo mwy o'r grantiau hyn i'r grant cynnal refeniw er mwyn arbed yr arian sy'n cael ei wario ar weinyddu. Er ei bod yn cydnabod bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud yn hynny o beth, teimla y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru symud yn gyflymach ar y mater hwn. **Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cefnogi'r safbwynt hwn er ei fod yn nodi y bydd cynnydd yn hynny o beth yn dibynnu ar ddod i gytundeb ar ffyrdd addas o fesur a chytuno'r canlyniadau i'w cyflawni.**

57. **Sylwadau: Roedd y Pwyllgor Cyllid yn falch bod cynrychiolwyr awdurdodau lleol a byrddau Iechyd lleol yn hyderus**

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-02-11(p4), *Cyllideb Ddrafft 2011-12 - Ymateb gan Gyfarwyddwyr Cyllid y GIG yng Nghymru*, 12 Ionawr 2011

y byddai eu sefydliadau cyfansoddol yn ateb yr heriau y mae'r gyllideb arfaethedig yn gwneud yn ofynnol wrth barhau i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol ohonynt. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor wedi bod yn fwy hyderus petai'r dystiolaeth a gafodd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyddfederasiwn y GIG wedi bod yn gryfach i gyfiawnhau'u sicrwydd.

58. Er hynny, mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio bod diffyg ymateb gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol unigol i ymgynghoriad y Pwyllgor yn dyst i'r ffaith eu bod yn cefnogi'r farn gadarnhaol hon. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi pwyslais Cyddfederasiwn y GIG ar y gefnogaeth wleidyddol y byddai ei angen arno i weithredu rhai newidiadau, a allai fod yn amhoblogaidd, er mwyn gwneud y GIG yn fwy effeithlon dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Costau staff Llywodraeth Cynulliad Cymru

59. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod y prif grŵp gwariant ar gyfer gwasanaethau canolog a gweinyddu yn dangos lleihad o 20 y cant mewn termau real dros gyfnod y gyllideb a bod yr adroddiad sy'n cydfynd â'r gyllideb yn nodi mai'r bwriad yw lleihau'r sail cost ar gyfer maint y gweithlu. Mae'r Pwyllgor wedi pryderu am y gost o staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru ers cryn amser ac mae wedi gofyn i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb sut y caiff y lleihad hwn ei gyflawni.

60. Yn ei hymateb,⁴⁰ cadarnhaodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych i leihau cost ei gweithlu. Cyfeiriodd at gyfyngiadau o ran recriwtio ac oriau ychwanegol ond dywedodd hefyd y bydd angen defnyddio diswyddo gwirfoddol i leihau maint y gweithlu. Cynhaliwyd un cyfnod o ddiswyddiadau eisoes a gobeithia'r Llywodraeth gynnal ail gyfnod ar ôl y Nadolig. Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at 'Atebion', sef proses newydd ar gyfer dyrannu adnoddau staff i sicrhau ei bod yn parhau i gyflawni dros y cyfnod o newid a sicrhau bod sgiliau a hyfforddiant yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-02-11(p3), *Cyllideb Ddrafft 2011-12 - Gwyboaeth Pellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*, 12 Ionawr 2011

61. Nododd y Pwyllgor Cyllid hefyd fod y ddogfen naratif a oedd yn cyd-fynd â'r gyllideb ddrafft yn awgrymu y byddai tua 30,000 o swyddi sector cyhoeddus yn cael eu colli yng Nghymru. O ystyried bod y Swyddfa â Chyfrifoldebau dros y Gyllideb wedi lleihau ei rhagolwg blaenorol ar gyfer swyddi cyfatebol a gaiff eu colli yn y Deyrnas Unedig o 490,000 i 330,000 yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant (gyda lleihad pellach o 80,000 yn 2015-16), gofynnodd y Pwyllgor tybed fyddai'r ffigur o 30,000 a roddwyd ar gyfer Cymru yn debygol o gael ei adolygu. Yn ei llythyr,⁴¹ dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb nad oedd yn credu bod angen addasu'r amcangyfrifon.

62. Sylwadau: Mae'r Pwyllgor Cyllid yn nodi ymatebion y Gweinidog o ran costau'r Llywodraeth a bydd yn eu hystyried ymhellach pan fydd yn cwblhau ei ymchwiliad i staffio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Buddsoddi cyfalaf

63. Nododd y Pwyllgor Cyllid y lleihad sylweddol mewn cyllidebau cyfalaf o ganlyniad i'r lleihad cyffredinol o 30 y cant mewn cyfalaf dros gyfnod y gyllideb ac mae'n pryderu am yr effaith y gallai hyn ei gael ar fuddsoddi mewn isadeiledd yng Nghymru.

64. Wrth gwrs, mae'r angen i ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl yr un mor berthnasol, ac efallai'n fwy perthnasol hyd yn oed, i gyllidebau cyfalaf o ganlyniad i'r lleihad sylweddol iawn ynddynt. Mae'r Pwyllgor Cyllid eisoes wedi dechrau ymchwiliad i'r ffordd y caiff buddsoddiadau cyfalaf eu dyrannu a'u rheoli gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a bydd angen ystyried y sefyllfa gyllidebol bresennol wrth gyflawni'r gwaith hwn. Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi gwneud sylwadau ar y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol a'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn datblygu ei dull strategol o ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y prif grŵp gwariant ar gyfer gwasanaethau canolog a gweinyddu yn y gyllideb ddrafft yn cynnwys dyraniad ar gyfer costau gweinyddu a gweithredu'r fframwaith ym mhob blwyddyn yn ystod cyfnod y gyllideb.

65. Yn ei llythyr i'r Pwyllgor Cyllid,⁴² dywedodd y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb na fydd y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-02-11(p3), *Cyllideb Ddrafft 2011-12 - Gwyboaeth Pellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*, 12 Ionawr 2011

⁴² Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-02-11(p3), *Cyllideb Ddrafft 2011-12 - Gwyboaeth Pellach gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb*, 12 Ionawr 2011

yn parhau y tu hwnt i 2010-11 ond y gwnaethpwyd darpariaeth yn y gyllideb ddrafft ar gyfer cyfalaf a gedwir yn ganolog. Byddai hyn yn golygu y byddai cronfa cyfalaf a gedwir yn ganolog o hyd at £150 miliwn ar gael yn ystod y cyfnod 2010-11 i 2013-14.

66. Sylwadau: Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ailadrodd ei farn am bwysigrwydd defnyddio cyllid cyfalaf yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, ac nid yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn yn unig. Mae'r Pwyllgor yn nodi â diddordeb datblygiad y gronfa cyfalaf a gedwir yn ganolog a bydd yn ystyried hyn ymhellach wrth gwblhau ei ymchwiliad i ddyrannu cronfeydd cyfalaf yng Nghymru.

Casgliadau

67. Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi edrych ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth yn fanwl ac wedi cael tystiolaeth amdani gan rai rhanddeiliaid allweddol. Bydd Cymru'n wynebu cyfnod heriol dros y flwyddyn sydd i ddod, gan fod rhaid iddi ymdopi â lefelau cyllid is. Felly, mae'n parhau i fod yn hanfodol y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob punt sy'n cael ei gwario yn sicrhau'r gwerth gorau am arian.

68. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar ei phrif amcanion ac yn gwneud hynny o fewn fframwaith sy'n ei gwneud yn bosibl i fonitro perfformiad a gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ymdrechion a wnaed gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i gyflawni hyn ond mae'n pryderu y dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau cysondeb mewn perthynas ag arferion gwahanol adrannau unigol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried canlyniadau, y ffordd y cânt eu cyflawni a'r ffordd y caiff llwyddiant ei fesur cyn gwneud penderfyniadau ar ddyrannu cyllidebau.

69. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffordd y Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi o weithio a'r gwaith o ddatblygu fframwaith mesur i sicrhau y caiff arbedion eu cyflawni mewn ffordd fesuradwy. Mae'n argymhell bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl. Yn yr un modd, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull o weithio mewn perthynas â Buddsoddi i Arbed. Roedd yn nodi yn arbennig y manteision y gellid eu hennill o ganlyniad i wneud arbedion drwy gymryd camau cydgysylltiedig mewn gwahanol adrannau. Anoga'r Pwyllgor y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb i ddatblygu systemau i sicrhau na gaiff y cyfleoedd hyn eu colli.

70. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn rhannu pryderon y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb y gallai Cymru golli ei harian Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn ac yn ei chefnogi yn ei hymdrechion i'w warchod. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu ei fod yn bosibl na fydd y trefniadau arfaethedig newydd gan Lywodraeth y DU i ddarparu hyblygrwydd cyllidebol rhwng y blynyddoedd yn hyblyg mewn ffordd sy'n addas i weinyddiaeth ddatganoledig.

71. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn croesawu'r negeseuon cadarnhaol a ddaeth i law gan lywodraeth leol a'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol mewn perthynas â chyflawni eu hamcanion yn y flwyddyn sydd i ddod, er bod ganddynt llai o adnoddau. Fodd bynnag, mae'n nodi pryderon y GIG ynghylch yr angen am gefnogaeth wleidyddol i weithredu rhai newidiadau a allai fod yn amhoblogaidd. Mae'n cytuno â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am bwysigrwydd lleihau nifer y grantiau wedi'u neilltuo - ar yr amod bod hyn yn digwydd ar y cyd â chytuno ar ffyrdd priodol o fesur y canlyniadau i'w cyflawni gan awdurdodau lleol.

72. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r datblygiadau mewn perthynas â chostau staff a dyraniadau cyfalaf a bwriada ailystyried y materion hyn yn ystod ei ymchwiliadau terfynol.

73. Ar fater mwy eang na chyllideb ddrafft y Llywodraeth, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi'i siomi gan Lywodraeth y DU am barhau i wrthod cydnabod a diwygio diffygion y fformiwla Barnett. Mae'n annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i wneud yr achos dros newid. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu bod y Trysorlys yn ymddangos i fod yn cysylltu materion yn ymwneud â benthyg a threthu â'r refferendwm am bwerau deddfu. Mae'r materion hyn yn gwbl ar wahân ac mae perygl y bydd creu'r cysylltiadau hyn yn peri dryswch yn ystod y refferendwm ar bwerau pellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Angela Burns AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Table 1: Total managed expenditure (TME) in the Welsh block 2010-11 to 2011-12 and cumulative change 2010-11 to 2013-14

Main Expenditure Group	2010-11 Supplementary Budget	2011-12 Draft Budget New Plans	Change 2010- 11 to 11-12	Change 2010- 11 to 11-12	Real terms change 2010- 11 to 2011-12	Real terms change 2010-11 to 2011-12	Cumulative change 2010- 11 to 2013-14	Cumulative change 2010- 11 to 2013- 14	Real terms cumulative change 2010- 11 to 2013-14	Real terms cumulative change 2010- 11 to 2013- 14
	£000	£000	£000	per cent	£000	per cent	£000	per cent	£000	per cent
Total Welsh Government TME allocations	15,321,636	15,017,082	-304,554	-2.0	-584,558	-3.8	-424,757	-2.8	-1,393,337	-9.1
Revenue Reserves	187,219	164,148	-23,071	-12.3	-26,132	-14.0	187,809	100.3	163,425	87.3
Capital reserves	266,619	50,448	-216,171	-81.1	-217,112	-81.4	-216,170	-81.1	-219,450	-82.3
Assembly Commission	46,227	48,822	2,595	5.6	1,685	3.6	-1,206	-2.6	-4,133	-8.9
Auditor General for Wales	5,047	4,853	-194	-3.8	-284	-5.6	-194	-3.8	-510	-10.1
Public Services Ombudsman for Wales	4,166	3,962	-204	-4.9	-278	-6.7	-206	-4.9	-463	-11.1
Direct Charges	675	675	0	0.0	-13	-1.9	0	0.0	-44	-6.5
Total Wales TME	15,831,589	15,289,990	-541,599	-3.4	-826,692	-5.2	-454,724	-2.9	-1,454,512	-9.2

Source: Members' Research Service calculations from Welsh Government Draft Budget 2011-12.

The figures for 2010-11 revenue and capital reserves shown in this table **do not match those published in the draft budget** document. This is because the published figures have not been restated in the same way as all other 2010-11 baseline figures. The figures shown here have been restated and were obtained from the Welsh Government. However, this means that **reserves cannot be compared between 2010-11 and 2011-12**.

Table 2: Total DEL in the Welsh block 2010-11 to 2011-12 and cumulative change 2010-11 to 2013-14

Main Expenditure Group	2010-11 Supplementary Budget	2011-12 Draft Budget New Plans	Change 2010- 11 to 11-12	Change 2010- 11 to 11-12	Real terms change 2010- 11 to 2011-12	Real terms change 2010-11 to 2011-12	Cumulative change 2010- 11 to 2013-14	Cumulative change 2010- 11 to 2013- 14	Real terms cumulative change 2010- 11 to 2013-14	Real terms cumulative change 2010- 11 to 2013- 14
	£000	£000	£000	per cent	£000	per cent	£000	per cent	£000	per cent
Health & Social Services	6,170,809	6,132,587	-38,222	-0.6	-152,569	-2.5	-69,694	-1.1	-466,382	-7.6
Social Justice & Local Government	4,459,941	4,373,218	-86,723	-1.9	-168,265	-3.8	-42,392	-1.0	-329,616	-7.4
Economy & Transport	973,730	903,042	-70,688	-7.3	-87,526	-9.0	-126,810	-13.0	-181,876	-18.7
Children, Education, Lifelong Learning & Skills	1,878,043	1,846,817	-31,226	-1.7	-65,661	-3.5	-29,023	-1.5	-149,244	-7.9
Environment, Sustainability & Housing	801,743	740,953	-60,790	-7.6	-74,606	-9.3	-123,618	-15.4	-167,709	-20.9
Rural Affairs	143,289	136,556	-6,733	-4.7	-9,279	-6.5	-9,395	-6.6	-18,101	-12.6
Heritage	157,584	150,850	-6,734	-4.3	-9,547	-6.1	-10,551	-6.7	-20,111	-12.8
Public Services & Performance	70,393	63,782	-6,611	-9.4	-7,800	-11.1	-13,344	-19.0	-17,053	-24.2
Central Services & Administration	365,621	346,499	-19,122	-5.2	-25,583	-7.0	-46,968	-12.8	-67,686	-18.5
Total Welsh Government DEL Allocations	15,021,153	14,694,304	-326,849	-2.2	-600,835	-4.0	-471,795	-3.1	-1,417,779	-9.4

Source: Members' Research Service calculations from Welsh Government Draft Budget 2011-12.

Atodiad A

Llythyr ymgynghori

Y Pwyllgor Cyllid Finance Committee

At:
Prif Weithredwyr
Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol
Cymru

Cynulliad Cenedlaethol Cymru/
National Assembly for Wales
Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

11 Tachwedd 2010

Annwyl Gydweithiwr

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n bwriadu gosod ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2011-12 ar 17 Tachwedd.

Bydd pawb yn y sector cyhoeddus yn wynebu heriau neilltuol yn y flwyddyn sydd i ddod, gydag awdurdodau a chyrff cyhoeddus yn gorfod rheoli'r gwasanaethau a ddarperir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau y gallant gyda'r adnoddau cyfyngedig fydd ar gael. Er mwyn cydnabod hyn, mae'r Pwyllgor Cyllid, wrth graffu ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth, yn bwriadu canolbwyntio ar flaenoriaethau'r Llywodraeth a'r canlyniadau a gaiff eu cyflawni. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn gofyn iddi nodi, ar yr adeg pan fydd y gyllideb ddrafft yn cael ei gosod, sut y bydd yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu sianelu er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr effaith fwyaf bosibl o ran cyflawni amcanion strategol y Llywodraeth a sut y bydd yn asesu'r canlyniadau a gyflawnir.

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gofyn am farn ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth gan gyrrff cyhoeddus ac unrhyw un arall yr effeithir arnynt ganddi. Dim ond cyfnod byr iawn sydd gan y Pwyllgor Cyllid i graffu ar gyllideb ddrafft y Llywodraeth ac felly mae angen i'r holl gyflwyniadau ddod i law erbyn diwedd y dydd ar 29 Tachwedd 2010. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn ymwybodol bod hon yn amserlen dynn iawn ac mae'n gofyn am gyflwyniadau cryno sy'n canolbwyntio ar y cynigion yng nghyllideb ddrafft y Llywodraeth.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
Gwasanaeth y Pwyllgorau / Committee Service
Ffôn / Tel : 029 2089 8225
Ebst/Email: Finance.comm@wales.gov.uk

Dylid anfon cyflwyniadau at y Clerc yn finance.comm@cymru.gov.uk, neu i'r cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn **dydd Llun 29 Tachwedd 2010** fan bellaf.

Datgelu Gwybodaeth

Mae'n arferol i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi tystiolaeth a ddarperir i bwyllgor. O ganlyniad, efallai y bydd eich ymateb yn ymddangos mewn adroddiad neu mewn tystiolaeth ategol sy'n rhan o adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich penderfyniad chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Yn gywir,



**Angela Burns AC/AM,
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

Atodiad C

Argymhellion a chasgliadau ac gan Bwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi derbyn adroddiadau ar graffu ar y gyllideb ddrafft gan y Pwyllgorau canlynol:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant
Y Pwyllgor Menter a Dysgu
Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal
Y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol
Y Pwyllgor Cynaliadwyedd
Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

Mae'r argymhellion a chasgliadau gan y Pwyllgorau eraill wedi'u crynhoi yn y tabl islaw.

Crynodeb o'r argymhellion a chasgliadau gan Bwyllgorau eraill:

Argymhelliad / Casgliad	Gweithred gan
<i>Gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc</i>	
Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Is-Bwyllgor y Cabinet ar Blant a Phobl Ifanc yn ymwneud mewn trafodaethau ar ddyrannu'r gyllideb yn llawer cynt dros y blynyddoedd nesaf er mwyn hwyluso ei rôl strategol o weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r saith nod craidd.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae'r Pwyllgor yn galw ar y Dirprwy Weinidog dros Blant i weithio gydag awdurdodau lleol i ddileu unrhyw amheuaeth sy'n parhau o ran ffrydiau ariannu Cymorth ar gyfer 2011-12 ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwbl ymwybodol o'r trefniadau pontio.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Dirprwy Weinidog dros Blant yn ailystyried y penderfyniad i rannu grant sefydliadol plant a theuluoedd rhwng yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Adran Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes yn 2012-13.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n monitro'n ofalus y dull clustnodi arian mewn modd hyblyg yn 2011-12, ac yn cymryd camau i hwyluso rhagor o glustnodi os oes angen i ffrydiau ariannu addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol.	Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru'n fonitro'n ofalus y trothwyau ar gyfer derbyn gwasanaethau, yn arbennig y trothwyau amddiffyn plant sy'n gymwys gan awdurdodau lleol trwy Gymru. Ymhellach, y dylid cyhoeddi canllawiau clir sy'n cynnwys diffiniadau o 'agored i niwed' a'r trothwyau amddiffyn plant lleiaf a ddylai fod yn gymwys, erbyn mis Ebrill 2011.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Dirprwy Weinidog dros Blant ysgrifennu at holl awdurdodau lleol Cymru i'w hatgoffa am bwysigrwydd, effeithiolrwydd a gwerth gwasanaethau ymyrraeth cynnar ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd ac i atgoffa awdurdodau lleol y gallai toriadau i wasanaethau fel hyn fod yn niweidiol i deuluoedd mewn argyfwng, ac arwain at gost ariannol i lywodraethau lleol yn y dyfodol.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<i>Gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant</i>	
Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru, wrth gynnal deialog â'r cyrff y mae'n eu noddi ynghylch y trefniadau cyllido posibl yn y dyfodol, yn sicrhau ei fod yn gallu nodi amcangyfrifon dangosol ar gyfer canlyniadau posibl toriadau neu gynnydd yn y cyllid ar gyfer y cyrff hynny.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod gostyngiadau yn y cyllid ar gyfer cleientiaid Cyngor Celfyddydau Cymru'n sy'n cael cyllid refeniw yn cael eu cyfyngu i tua 4 y cant dros gyfnod o dair blynedd, fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Dreftadaeth.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'i phartneriaid (fel awdurdodau lleol a Chyngor Celfyddydau Cymru) i'w galluogi i ganfod yr ardaloedd daearyddol yng Nghymru lle mae mynediad pobl at weithgareddau celfyddydol a diwylliannol drwy ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn arbennig o gyfyngedig.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru roi disgrifiad clir o'r costau a ddisgwylir ar gyfer sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<i>Gan y Pwyllgor Menter a Dysgu</i>	

<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu, ar frys, fframwaith ar gyfer mesur effaith ei pholisiau datblygu economaidd yn erbyn amcanion strategol.</p> <p>Rydym hefyd yn argymhell y dylai Gweinidogion Cymru egluro'r rôl y disgwyliant i Gyngor Adnewyddu'r Economi, sydd newydd ei gyhoeddi ei chwarae o ran sicrhau y gellir dwyn perfformiad y Llywodraeth yn y maes hwn i gyfrif yn rheolaidd.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Rydym yn argymhell y dylai'r Pwyllgor Cyllid graffu ar effaith cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer costau'r cynllun tocynnau teithio rhatach yn y dyfodol, ar y gyllideb refeniw ac ar y gyllideb gyfalaf er mwyn datblygu teithio cynaliadwy. Dylai hefyd wneud argymhellion i'r Gweinidogion ar gyfer diogelu mentrau trafndiaeth gyhoeddus eraill.</p>	<p>Y Pwyllgor Cyllid</p>
<p>Credwn ei bod yn hanfodol bod record ardderchog Cymru o ran diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei chynnal ac felly rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Cyllid yn holi Llywodraeth Cymru ymhellach ynghylch cost effeithiolrwydd cynigion i leihau ei chyllideb diogelwch ar y ffyrdd.</p>	<p>Y Pwyllgor Cyllid</p>
<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys, mewn gwerthusiadau yn y dyfodol, y cyfraniad y mae'r fenter brechwast mewn ysgolion yn ei wneud i ddatblygu'r economi.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor Cyllid yn craffu ymhellach ar unrhyw risg o danwario yn rhaglen Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop o ganlyniad i gynigion y gyllideb ddrafft.</p>	<p>Y Pwyllgor Cyllid</p>
<p>Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gynnal gwerthusiad o rinweddau modelau partneriaethau cyhoeddus preifat gwahanol fel modd o greu ffynonellau gwahanol o arian er mwyn cyflawni prosiectau cyfalaf a hefyd arbed ar wariant refeniw yn y tymor hwy.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p><i>Gan y Pwyllgor Cyfle Cyfartal</i></p>	
<p>Croesawodd y Pwyllgor bod y Gweinidog wedi rhoi sicrwydd bod penderfyniadau ynghylch y gyllideb wedi cael eu seilio ar asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Fodd bynnag, credwn fod angen gweithio mewn modd mwy tryloyw ac, yn unol ag</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>

arweiniad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canlyniadau'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.	
Pwysleisiodd y Pwyllgor bwysigrwydd mesur effeithiolrwydd a chanlyniadau blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran eu heffaith ar wahanol grwpiau o bobl.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Roedd y Pwyllgor yn pryderu am effaith setliad llai ar lywodraethau lleol a'u gallu i weithredu polisi cyflog cyfartal i fenywod, oherwydd nid ydym yn dymuno gweld Cymru yn disgyn ymhellach fyth ar ei hôl hi.	Llywodraeth Leol
Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ei gorau i warchod y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Fodd bynnag, rydym yn pryderu y bwriedir penderfynu a gweithredu nifer o'n blaenoriaethau ar lefel leol. O ystyried safbwynt Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran dyrannu arian wedi'u glustnodi, rydym yn annog y Gweinidog i ddefnyddio'r broses o asesu'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau bod awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus yn ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau pan maent yn gwario arian a ddyrennir iddynt gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<i>Gan y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol</i>	
Mynegwyd pryder am faint yr adnoddau a ddyrannwyd i roi'r Mesur Arfaethedig ynghylch Iechyd Meddwl (Cymru) ar waith. Ehangwyd y Mesur hwn i gynnwys pobl o dan 18 oed. Er bod y Pwyllgor Cyllid wedi cymeradwyo'r Mesur, nid oedd, bryd hynny, yn cynnwys darpariaeth ar gyfer pobl dan 18 oed. Mae'r Pwyllgor, felly, yn argymhell bod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn monitro'r sefyllfa'n ofalus.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Roedd y Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad o 4 y cant yn y cyllid a oedd ar gael ar gyfer hyfforddi gweithlu'r GIG. Roedd yn pryderu hefyd am swm yr arian a oedd yn cael ei wario ar hyfforddi staff sydd wedyn yn penderfynu gweithio'r tu allan i Gymru, a'r mater moesol o ddefnyddio staff meddygol o wledydd eraill, gan gynnwys gwledydd Affrica Is-	Llywodraeth Cynulliad Cymru

<p>Sahara. Byddai'r Pwyllgor yn gofyn i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried ffyrdd o ysgogi'r rheini a gaiff eu hyfforddi yng Nghymru i aros yng Nghymru. Byddai hyn hefyd yn golygu y byddai angen dibynnu llai ar staff o wledydd eraill, lle mae'n bosibl y mae eu dirfawr hangen.</p> <p>Mynegwyd pryder hefyd am y buddsoddiad a wnaed i hyfforddi staff er nad oedd swyddi, o reidrwydd, ar eu cyfer. Roedd maes bydwreigiaeth yn un enghraifft o hyn. Mae'r Pwyllgor yn teimlo bod angen i'r Llywodraeth ailystyried yn y modd y mae cynlluniau gweithlu'n cyfrannau at benderfyniadau ar gyllidebau hyfforddiant.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Dywedodd y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod £200,000 wedi'i glustnodi i roi argymhellion Adroddiad Pennington ar waith. Mynegodd y Pwyllgor bryder am y gwahaniaeth rhwng y swm a glustnodwyd gan y Llywodraeth a'r ffigur o £2.75 miliwn yr awgrymodd yr Athro Pennington yr oedd ei angen i roi ei argymhellion ar waith. Byddai'r Pwyllgor, gan hynny, yn annog y Llywodraeth i ailystyried y swm a ddyrannwyd i roi'r argymhellion hyn ar waith. Mae hyn yn hanfodol os ydym am sicrhau nad yw trychineb 2005 yn digwydd eto.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Nododd y Pwyllgor â phryder y gostyngiad yng nghyllid CAF/CASS Cymru ac roedd yn synnu bod y gostyngiad yn ymwneud yn benodol â chanolfannau cyswllt, yn enwedig gan fod adroddiad y Pwyllgor ar yr Ymchwiliad i CAF/CASS wedi tynnu sylw at y ffaith nad oedd digon o'r canolfannau hyn ar gael, a dim digon o arian ar eu cyfer. Byddai'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ailedrych ar yr argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar CAF/CASS ac, yn benodol, ar yr arian sydd ar gael ar gyfer canolfannau cyswllt.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p><i>Gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd</i></p>	
<p>Dylai'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Gynaliadwyedd a Thai roi rhagor o eglurdeb ynghylch ble fydd yr arbedion yn cael eu gwneud i dalu am yr elfennau o gyllideb Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai sydd wedi cael eu diogelu, a pha amcanion na fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i hyn;</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>

Dylai'r Gweinidog roi manylion llawn sut y mae'n bwriadu cyflawni ei hymrwymiaid pan fydd y gyllideb cyfalaf yn gostwng 20.9 y cant yn 10/11 a 32.6 y cant yn 13/14, a'r gyllideb refeniw yn gostwng 4.4 y cant yn 11/12 a 9.5 y cant yn 13/14. Nid yw'r Pwyllgor yn teimlo bod y Gweinidog wedi esbonio'n ddigonol sut y bydd yn gallu cyfalafu cyfran sylweddol o'r gyllideb refeniw heb gael effaith ar allu ei hadran ac asiantaethau i fodloni eu hamcanion;	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dylai'r Gweinidog egluro'r sefyllfa o ran y grantiau Buddsoddi i Arbed a roddwyd i'w hadran a'r arbedion a ddisgwylir o'r prosiectau hyn;	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dylai'r Gweinidog asesu sut bydd toriadau i'r gyllideb yn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i ddiwallu'r rhwymedigaethau a amlinellir yn y Deddfau Seneddol <i>Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i> a <i>Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010</i> , a'i gallu i adeiladu capasiti cyn i'r rheoliadau adeiladu gael eu datganoli;	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Wrth wneud penderfyniad ynghylch dyfodol y cyrff delifro amgylcheddol yng Nghymru, dylai'r Gweinidog gyhoeddi gwybodaeth glir a manwl ynghylch oblygiadau ariannol ei phenderfyniad;	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dylai'r Gweinidog feddwl yn greadigol am gyfleoedd i gyrff cyhoeddus godi refeniw ychwanegol o fewn ei chylch gwaith.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
<i>Gan yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig</i>	
Dywedodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig (FG) ei bod yn debygol y bydd gorwariant yn y gyllideb hon, gan fod taliadau iawndal ar gyfer TB yn seiliedig ar alw. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn addasu'r gyllideb hon, yn unol ag amcangyfrifon gorau a gwariant mewn blynyddoedd blaenorol, er mwyn adlewyrchu lefelau gwirioneddol taliadau iawndal ar gyfer TB. Cred y Pwyllgor y bydd hyn yn tynnu sylw at wir natur y broblem TB yng Nghymru, yn ogystal â chaniatáu craffu mwy manwl gywir ar y gyllideb.	Llywodraeth Cynulliad Cymru
Er bod y Gweinidog dros FG wedi ymroddi i ddiogelu cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig, ni wnaeth ymroddi i gynnal cyllideb Glastir ar y lefel	Llywodraeth Cynulliad Cymru

<p>bresennol. Hoffai'r Pwyllgor gael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yr arian ar gael ar gyfer Glastir yn y tymor hwy.</p>	
<p>Roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn bod y Gweinidog dros FG wedi penderfynu gwneud toriadau i'r gyllideb ar gyfer marchnata bwyd a diod, ond roedd yn galonogol i'r Pwyllgor glywed bod y Gweinidog yn ystyried rôl y grant prosesu a marchnata o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig. Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i symud ymlaen yn y broses o dderbyn ceisiadau newydd i'r grant hwn, er mwyn lleihau effaith toriadau yn y maes.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Er bod y Gweinidog dros FG yn teimlo'n hyderus y gellid canfod goblygiadau ariannol y ddeddfwriaeth arfaethedig ynghylch bridio cŵn o fewn ei chyllideb, dywedodd ei bod yn bosibl y daw rhagor o oblygiadau o ran adnoddau i'r amlwg drwy'r broses o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth ar oblygiadau'r ddeddfwriaeth hon o ran adnoddau fel y maent yn dod i'r amlwg. Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i ystyried hyn yn rowndiau cyllideb y dyfodol.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Dywedodd y Gweinidog dros FG wrth y Pwyllgor y byddai arian cyfatebol ar gyfer Cronfa Pysgodfeydd Ewrop—sy'n rhoi grantiau i unigolion yn y diwydiant pysgota—yn cael ei ddiogelu er gwaethaf y toriadau i'r gyllideb fwyd a physgodfeydd. Fodd bynnag, ni roddodd y Gweinidog wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae'r gyllideb wedi cynnwys y cyfrifoldebau ychwanegol am bysgodfeydd, a roddwyd i'r Gweinidog gan y <i>Ddeddf Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009</i>. Mae'r Pwyllgor yn annog y Gweinidog i amlinellu'n fanylach sut y bydd cyfrifoldebau ychwanegol hyn yn cael eu cynnwys yn y gyllideb.</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>
<p>Yn ychwanegol at y pwyntiau uchod ar gyllideb yr Adran Materion Gwledig, roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu—o safbwynt ehangach—ynghylch y defnydd o danwario o fewn cyllidebau i dalu taliadau iawndal, a'r effaith y gallai hyn ei gael ar y broses o graffu ar y gyllideb yn effeithiol. Mae'r Pwyllgor yn deall ac yn cefnogi'r angen am hyblygrwydd mewn cyllidebau, ond mae'r posibilrwydd o newid blaenoriaethau gwleidyddol drwy gynllunio tanwario</p>	<p>Llywodraeth Cynulliad Cymru</p>

<p>mewn rhai meysydd i wrthbwyso rhai eraill yn peri pryder iddo. Mae'r arfer hwn yn ei gwneud yn anodd craffu ar flaenoriaethau gwariant o fewn adrannau, gan ei bod yn bosibl na fydd y pwyslais ar wariant yn y gyllideb yn adlewyrchu gwir flaenoriaethau'r adran.</p>	
--	--

Atodiad C

Cyllideb Ddrafft Llywidraeth Cynulliad Cymru 2011-12 - Ymatebion gan Weinidogion Cymru

Ysgrifennodd y Pwyllgor Cyllid at Weinidogion portffolio yn dilyn ei sesiwn tystiolaeth gyntaf ar y Gyllideb Ddrafft ar 18 Tachwedd. Mae'r ymatebion ynghlwm islaw.

Alun Ffred Jones AC/AM
Y Gweinidog dros Dreftadaeth
Minister for Heritage



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf/Our ref: SF/AJ/00156/10

Angela Burns AM
Chair, Finance Committee
Cardiff Bay,
Cardiff.
CF99 1NA

29th November 2010

Dear Angela,

Scrutiny of the Welsh Assembly Government's Draft Budget for 2011- 12

The purpose of this letter is to respond to your letter of 23rd November concerning the Heritage contribution to the Welsh Government's draft budget published on 17th November.

The Heritage budget contains most of the public funding provided to support the arts, national museums and libraries, sport, the Welsh language and the built heritage and to promote and support the development of Wales as a tourist destination. The majority of the Heritage budget is paid out to Assembly Government Sponsored Bodies (AGSBs). Funding is also provided to Visit Wales, Cadw and Cymal. My proposals take into account discussions with each of the AGSBs during the period preceding the budget announcement and a detailed assessment of the pressures they face.

You have asked me to inform you of the priorities I had in determining the budget for 2011-12 and how these would contribute to meeting the Governments overall strategic objectives. My priorities are four fold.

Firstly I have prioritised the protection of front line services whenever possible. We will also maintain our commitment to widening access to each of those services including free entry to the National Museum sites. Each of the AGSB running cost budgets will be reduced by a greater amount than the programmes they support. Our ability to continue to deliver the wide range of outcomes that characterise the Heritage budget will be crucially dependant on our ability to generate efficiency savings, both as a Department and through the organisations that we fund. It will be important to explore the extent to which these can be achieved through greater joint working across and between the arms length bodies that we fund. I am also anxious to generate greater synergies between the distinctive programmes within the Heritage portfolio. Casgliad y Werin – the People's Collection is an excellent example of what can be achieved by organisations working together. It is a partnership between Amgueddfa Cymru, the National Library and the Royal Commission. It's funding will be increased reflecting its strategic importance. I want to see stronger action across a broad front to maximise the opportunities surrounding cultural tourism. I also want to emphasise the cross cutting contribution Heritage makes across a range of the Government's programmes including areas such as public health, community regeneration and education.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel 029 2089 8465
Ffacs • Fax 029 2089 8015
correspondence.alun.ffred.jones@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper

